

## Ordinhad 12

### Y Senedd

<b>Y Corff Cymeradwyo:</b>	Y Cyngor
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	24 Ebrill 2020
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Ysgrifennydd y Brifysgol
<b>Swyddog Polisi:</b>	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
<b>Statws y Polisi:</b>	Newydd
<b>Fersiwn:</b>	1.0
<b>Dyddiad adolygu:</b>	Ebrill 2023

## Ordinhad 12 Y Senedd

### 1. Aelodaeth

#### 1.1 Bydd y Senedd yn cynnwys y canlynol:

- (a) Yr Is-ganghellor (Cadeirydd)
- (b) Unrhyw Ddirprwy Is-ganghellor a Dirprwy i'r Is-gangellorion
- (c) Holl Benaethiaid Colegau
- (d) Holl Benaethiaid Ysgolion
- (e) Holl benaethiaid sefydliadau rhyngddisgyblaethol a gymeradwywyd at y diben hwn
- (f) Un cynrychiolydd o bob Ysgol academiaidd, i'w benodi gan bob Ysgol
- (g) Pum cynrychiolydd myfyriwr, i'w penodi gan Undeb y Myfyrwyr
- (h) Hyd at bump o unigolion sy'n aelodau cyfetholedig ac wedi'u cymeradwyo gan y Senedd
- (i) Hyd at ddeg aelod academiaidd annibynnol

1.2. Ysgrifennydd y Brifysgol, neu ei enwebai, fydd ysgrifennydd y Senedd. Gall swyddogion eraill ddod i gyfarfodydd y Senedd i ddibenion ymgynghorol neu fel arsylwyr.

1.3 Gall unigolion eraill ddod i gyfarfodydd y Senedd ar wahoddiad y Cadeirydd.

1.4 Penodir Aelodau Academiaidd Annibynnol y Senedd fel a ganlyn:

- (i) Pan fo sedd ymysg y cynrychiolwyr academiaidd annibynnol ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Senedd yn hysbysu holl aelodau'r Staff Academiaidd sy'n gyflogedig ar y pryd o hynny ac yn galw am enwebiadau.
- (ii) Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Senedd, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.
- (iii) Os ceir mwy na deg enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Senedd yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeiswyr sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, trefnir dull yr etholiad yn ôl doethineb Ysgrifennydd y Brifysgol.
- (iv) Bydd Ysgrifennydd y Senedd yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.
- (v) Os daw unrhyw sedd yn wag o dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull tebyg i'r uchod. Bydd y sawl a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.
- (vi) Bydd y tymor gwasanaeth yn dair blynedd, yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis Awst ar ôl ei (h)ethol, ac mae cynrychiolwyr yn gymwys i'w haillethol pan ddaw un tymor i ben.

- 1.5. Fel rheol, bydd y Senedd yn cyfarfod ar bedwar achlysur bob blwyddyn academiaidd.
- 1.6. Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Senedd, i siarad naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 1.7. Y Senedd yw awdurdod academiaidd y brifysgol a dyma'r corff llywodraethol ar faterion sydd angen barn academiaidd. Dyma enghreifftiau o'r cyfryw faterion:
  - Rheoliadau'n ymwneud â rhaglenni gradd a myfyrwyr
  - Aseidiadau, cynnydd ac apeliadau myfyrwyr
  - Cofrestru myfyrwyr neu derfynu astudiaethau
  - Disgyblu myfyrwyr
  - Dyfarnu gwobrau, ysgoloriaethau etc.
  - Hyd a strwythur y flwyddyn academiaidd
  - Materion yn ymwneud â'r amserlen
  - Achosion myfyrwyr unigol.

1.8. Gall y Senedd hefyd drafod materion strategol sy'n effeithio ar y maes academiaidd.

## 2. Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Senedd y pwerau a'r swyddogaethau canlynol, y caiff eu dirprwyo i'r pwyllgorau y mae'n eu sefydlu:

- 2.1. Goruchwylio a rheoleiddio addysgu ac ymchwil yn y Brifysgol a'r arholiadau a'r aseidiadau a gynhelir gan y Brifysgol.
- 2.2. Gwneud unrhyw Reoliadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau fel y'u diffinnir yn y Siarter.
- 2.3. Dyfarnu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.
- 2.4. Gyda rheswm da, diddymu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.
- 2.5. Rheoleiddio disgyblaeth myfyrwyr y Brifysgol mewn perthynas â materion academiaidd ac anacademaidd.
- 2.6. Rheoleiddio cwynion ac apeliadau myfyrwyr mewn perthynas â materion academiaidd ac anacademaidd.
- 2.7. Rheoleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a dyfarnu Cymrodoriaethau, Ysgoloriaethau, Efrogiaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau a derbyn adroddiad blynyddol ar y dyfarniadau a wneir.
- 2.8. Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar hyd a strwythur y flwyddyn academiaidd, ac amserlennu.

- 2.9 Penderfynu pa aelodau staff fydd â statws academiaidd, a chymeradwyo Penodiadau er Anrhydedd ar argymhelliad y Deon neu Bennaeth yr Ysgol
- 2.10 Ystyried, a lle bo hynny'n briodol, cymeradwyo, pob cynnig am gysylltiad academiaidd â Phrifysgol Bangor mewn sefydliadau neu adrannau eraill neu ganghennau ohonynt
- 2.11 Penodi dau aelod o'r Senedd i fod yn aelodau o'r Cyngor.
- 2.12 Gwneud sylwadau ar newidiadau i'r Siarter a'r Statudau a gynigir gan y Cyngor.
- 2.13 Adrodd i'r Cyngor ar unrhyw fater academiaidd
- 2.14 Adrodd ar unrhyw fater a gyfeirir at y Senedd gan y Cyngor.